


Tegwch a Rhagoriaeth: Adroddiad cenhadaeth ein cenedl ar addysg bellach ac addysg uwch

Rydym wedi cyflwyno'r 'Difidend Diamond' ar gyfer y sector addysg uwch, gan gynyddu'r cyllid i CCAUC a thrwy CCAUC 80% ers 2016.	Rydym wedi buddsoddi £15.5 miliwn mewn Cyfrifon Dysgu Personol newydd, gan ariannu dros 2,000 o unigolion i ennill sgiliau lefel uwch mewn sectorau economaidd a chyflogaeth allweddol.		Mae dros 16,000 o ddysgwyr o flynyddoedd 8-13 wedi derbyn cymorth drwy ein dwy Raglen Seren newydd, sydd wrth wraidd Strategaeth Mwy Abl a Thalentog Cymru.		Rydym wedi ariannu, datblygu ac ehangu cynllun mentora ysgolion-israddedigion cenedlaethol arloesol, gan gynorthwyo i hyrwyddo pynciau fel Ffiseg ac leithoedd a datblygu sgiliau cyfathrebu ac addysgu myfyrwyr.		Yn 2019, fe aethom ati i fuddsoddi £8.4 miliwn yn ychwanegol yng nghynllun Sêr Cymru i gynorthwyo partneriaethau academiaidd a diwydiannol rhyngwladol sy'n canolbwyntio ar ragoriaeth ymchwil.	Rydym wedi cyflwyno bwrsariaeth Meistr ar gyfer pynciau STEMM sy'n cynorthwyo myfyrwyr i ddychwelyd i Gymru, neu i gamu ymlaen yn ein prifysgolion. Rydym yn buddsoddi mewn datblygu a recriwtio ein talentau ein hunain.
Drwy gyllid uniongyrchol a phartneriaethau strategol, rydym wedi cynorthwyo'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i wneud cynnydd sylweddol ym maes addysg a hyfforddiant dwyieithog ôl-16. Mae hyn yn cynnwys canolbwyntio ar ddarpariaeth colegau mewn meysydd blaenoriaeth fel Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant a Gwasanaethau Cyhoeddus.		Rydym wedi buddsoddi i ail-sefydlu cyllid ymchwil ac arloesi yn dilyn argymhelliad gan Adolygiad Diamond ac Adolygiad Reid. Mae hyn yn cynorthwyo prifysgolion ac ymchwilwyr i weithio gyda diwydiant a busnes.		Rydym wedi ehangu mynediad at gyfleoedd rhyngwladol i fyfyrwyr, ymchwilwyr a sefydliadau. Mae hyn yn cynnwys cynllun symudedd allanol cenedlaethol cyntaf Cymru, cytundebau cenedlaethol gyda phartneriaid fel Fietnam a phartneriaethau gyda phrifysgolion fel Yale a MIT.				
Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf yn unig rydym wedi buddsoddi dros £55.7 miliwn i gefnogi iechyd meddwl a lles mewn colegau a phrifysgolion.		Erbyn hyn, mae'r sector addysg uwch, gan gynnwys pob prifysgol, CCAUC a Cyllid Myfyrwyr Cymru, yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol, gan dalu costau byw staff ledled y wlad. Mae hyn yn unigryw yn y DU.	Rydym wedi cyflwyno system cymorth i fyfyrwyr flaengar a theg sy'n unigryw yn Ewrop ar gyfer ariannu israddedigion ac ôl-raddedigion llawn amser a rhan-amser trwy ddarparu grantiau a benthychiadau costau byw.		Mae mwy o raddedigion yn llwyddo i sefydlu busnesau newydd yng Nghymru nag yng ngwledydd eraill y DU, a bydd ein Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuentid yn helpu i greu 900 o fusnesau newydd erbyn diwedd y flwyddyn.	Diolch i'n Rhaglen Seren, bu cynnydd o 55% yn nifer y myfyrwyr o ysgolion gwladol yng Nghymru sy'n mynd i Brifysgol Rhydychen, a chynnydd o 33% yn nifer y rhai sy'n mynd i Brifysgol Caergrawnt.		Rydym yn arwain ar genhadaeth ddinesig prifysgolion – a'r sector fel stiwardiaid i'n cymunedau a'r genedl. Mae'r Rhwydwaith Cenhadaeth Ddinesig a'r Fframwaith Cenhadaeth Ddinesig yn dwyn ynghyd brosiectau, gweithgareddau a dyheadau.
	Rydym wedi gweithio gyda'r sector AB i gyflwyno'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Athrawon AB ac ymarferwyr DSW cyntaf a wnaed yng Nghymru.		Diolch i'n diwygiadau i gyllid myfyrwyr, ers blwyddyn academiaidd 2015/16 bu cynnydd o 51% yn nifer yr ôl-raddedigion blwyddyn gyntaf, llawn amser o Gymru, a chynnydd o 20% yn nifer yr ôl-raddedigion rhan-amser o Gymru.	Mae grwpiau ymchwil presennol Sêr Cymru yn cael effaith sylweddol ar eu meysydd ymchwil ac arloesi, er enghraifft, mae Prifysgol Abertawe, Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Bangor yn creu argraff ym meysydd datblygiadau lled-ddargludyddion cyfansawdd, monitro amgylcheddol o bell a'r sector niwclear.	Rydym yn buddsoddi £20 miliwn yn ein rhaglen gradd-brentisiaeth arloesol - gan gefnogi dros 200 o gyflogwyr a 600 o ddysgwyr.	Rydym wedi cydnabod a chefnogi cyfraniad sefydliadau AB ac AU at helpu Cymru i adfer o effeithiau'r pandemig. Maent wedi dylunio a gweithgynhyrchu cyfarpar diogelu personol ac wedi cefnogi'r gymuned ehangach. Hefyd, maent wedi gwneud gwaith hanfodol gan gynnwys cefnogi gweithwyr ar ffyrlo trwy ddarparu adnoddau ar-lein, a darparu cymorth iechyd meddwl am ddim i weithwyr meddygol a gofal iechyd.		